

Cyfarwyddiaeth Adnoddau Is-adran Archwilio Mewnol



Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol (fel ar 30 Medi 2023)

Cyflwyniad	2
Cefndir	2
Annibyniaeth a Gwrthrychedd	2
Datblygiad Proffesiynol Parhaus	2
Aseiad Cymheiriaid Allanol	3
Safonau Archwilio Mewnol Newydd	3
Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd	4
Gweithgareddau Presennol	4
Adnoddau	7
Cynllun Blynnyddol	8
Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg (<i>Ch2 2023/24</i>)	9
Canfyddiadau Gwerth am Arian (<i>Ch2 2023/24</i>)	12
Perfformiad Archwilio a Gwerth Ychwanegol	13
Gwerth Ychwanegol	13
Perfformiad	14
Meincnodi	15
Gweithredu Cynllun Archwilio	16
Argymhellion	17
Diweddariad Archwilio Mewnol – Oedolion, Tai a Chymunedau	17
Casgliad	18
Atodiad A	Statws Adroddiad fel ar 30 Medi 2023
Atodiad B	Cynllun Archwilio
Atodiad C	Crynodeb o'r Argymhellion
Atodiad D	Oedolion, Tai a Chymunedau – Diweddariad Sicrwydd Archwilio Mewnol

Paratowyd gan: Chris Pyke, Rheolwr Archwilio

ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol yn nodi perfformiad o ran y Cynllun Archwilio Mewnol. Mae'n crynhoi'r gwaith a wnaed, yr argymhellion blaenoriaeth a godwyd, y canfyddiadau critigol, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chanfyddiadau gwerth am arian perthnasol.

Mae'r adroddiad cynnydd yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill - 30 Medi 2023, ac yn dilyn y diweddariadau a roddwyd yn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2023. Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro i roi crynodeb o'r gweithgareddau archwilio, adnoddau, canlyniadau a chynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio 2023/24.

Cymeradwywyd Cynllun Archwilio 2023/24 gan y Pwyllgor ar 21 Mawrth 2023. Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn rhoi'r fframwaith ar gyfer gwaith archwilio bob blwyddyn ac mae'n cyd-fynd â threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, gan ymateb hefyd i unrhyw newidiadau i'r risgiau a wynebir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

1.2 Annibyniaeth a gwrthrychedd

Mae'r is-adran Archwilio Mewnol yn adrodd i'r Rheolwr Archwilio. Yn unol â darpariaethau Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (1100), cynhelir annibyniaeth sefydliadol gan nad yw'r Rheolwr Archwilio yn gyfrifol am reoli unrhyw swyddogaethau y tu hwnt i'r timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Mae'r Rheolwr Archwilio yn adrodd yn weinyddol i'r Pennaeth Cyllid ac yn swyddogaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am faterion sy'n ymwneud ag archwilio. Ni fu unrhyw achosion o amharu ar annibyniaeth na gwrthrychedd.

1.3 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Cwblhaodd yr archwilwyr eu hadolygiadau personol diwedd blwyddyn a ffurfioli eu hamcanion ar gyfer 2023/24. Cyn trafod perfformiad, cwblhaodd yr archwilwyr eu hasesiad sgiliau o ran Fframwaith Cymwyseddau Proffesiynol y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (SAM).

Llywiodd canlyniadau adolygiadau personol ac asesiadau sgiliau adolygiad y Rheolwr Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (Safon 1300), y cydnabuwyd gwaelodlin gyffredinol gref o wybodaeth a sgiliau ohoni ar draws y tîm archwilio.

1.4 Asesiad Cymheiriaid Allanol

Yn flynyddol mae'r Rheolwr Archwilio yn cwblhau adolygiad mewnol yn erbyn Nodyn Cais Llywodraeth Leol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA), sy'n dadansoddi gofynion cydymffurfio Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC). Yn ogystal ag adolygiadau mewnol, mae'r SAMSC yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau allanol gael eu cynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan asesydd cymwys, annibynnol neu gan dîm asesu o'r tu allan i'r sefydliad.

Cafodd yr asesiad allanol 5 mlynedd diweddaraf ei gwblhau a'i adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2023, dan arweiniad y Prif Archwilydd yng Nghynghorau Sir Fynwy / Casnewydd. Nid yw'r asesiad wedi nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfiad rhannol neu lwyr. Cynigiwyd un cam gweithredu dewisol ac fe'i gweithredwyd, yn ymwneud â chyfathrebu cwmpas ac amcanion yr archwiliad ynghyd â'r risg, o fewn allbynnau archwilio.

1.5 Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang Newydd

Mae'r SAMSC yn deillio o Safonau Rhyngwladol ar gyfer Ymarfer Archwilio Mewnol Proffesiynol (SRhYAMP), a sefydlwyd gan y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (SAM). Mae'r SAM yn adolygu pob elfen o'r Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol (FfAPRh) gan gynnwys y SRhYAMP a bydd yn gweithredu Safonau newydd.

- Yr amserlen arfaethedig yw i gyhoeddi'r Safonau newydd, a elwir yn Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (SAMB), yn gynnar yn 2024, i ddod i rym yn ystod 2025. Bydd y SAMSC yn cael ei alinio â'r SAMB i alinio â gwaith archwilio mewnol cyrff sector cyhoeddus.
- Mae'r [Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang arfaethedig drafft](#) ar gael, ac wedi bod yn destun [ymgyngoriad](#) a ddaeth i ben ym mis Mai 2023. Ymatebodd y Tîm Archwilio Mewnol yng Nghaerdydd i'r cwestiynau ymgynghori drwy Ddinasoedd Craidd y DU a Grwpiau Awdurdodau Lleol Prif Archwilydd Cymru.

- Mae'r Bwrdd Safonau Archwilio Mewnol Rhyngwladol wedi cwblhau ei [adolygiad](#) o'r ymgynghoriadau a dderbyniwyd. Mae wedi adrodd lefelau isel yn unig o anghytuno â'r safonau newydd (yn amrywio rhwng 6 ac 16 y cant ar wahanol adrannau).

Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang drafft wedi'u trefnu'n bum parth fel a ganlyn:

1. Pwrpas Archwilio Mewnol.
2. Moeseg a Phroffesiynoldeb.
3. Llywodraethu'r Swyddogaeth Archwilio Mewnol.
4. Rheoli'r Swyddogaeth Archwilio Mewnol.
5. Cyflawni Gwasanaethau Archwilio Mewnol

Mae [map](#) manwl wedi'i gynhyrchu i ddangos y newidiadau rhwng y safonau presennol a'r safonau newydd arfaethedig, ac yn arbennig o berthnasol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mae'r [canllaw](#) byr a ddyluniwyd i'w rannu gyda'r Bwrdd, fel cyflwyniad i hybu ei ddealltwriaeth o'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang. Sylwch fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynrychioli'r 'Bwrdd' yn Awdurdodau Lleol Cymru. Yn arbennig o berthnasol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mae parth 3 o'r Safonau drafft.

Bydd diweddariadau a briffiau pellach yn cael eu darparu i'r Pwyllgor wrth i'r Safonau gael eu cyhoeddi, a phan y gwneir diweddariadau i'r SAMSC i ddiffinio cymhwysiad yn y sector cyhoeddus.

2. Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd

2.1 Gweithgareddau Presennol

Yn ystod chwarter dau 2023/24, blaenoriaethau ac ymagwedd y tîm archwilio oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a dechrau cyflawni ymgysylltiadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Mae'r Tîm Archwilio Mewnol wedi parhau i fod ar gael i roi cyngor ac arweiniad ar gynllunio a gweithredu rheolaethau effeithiol, newidiadau i brosesau a gweinyddu grantiau i sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth, a threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn effeithiol.

Ar derfyn cynlluniedig Cynllun Archwilio 2022/23, mae nifer o ymgysylltiadau archwilio sicrwydd wedi dechrau o Gynllun Archwilio 2023/24. Mae'r gwaith hwn yn parhau i gael ei wneud yn

bennaf ar sail bwrdd gwaith, er bod ymweliadau safle yn digwydd ar gyfer archwilio sefydliadau, i arsylwi ar weithrediad rheolaethau neu arferion gweithredu ffisegol.

Mae'r tabl isod yn dangos rhestr o archwiliadau a'r statws adrodd yn y flwyddyn bresennol tan 30 Medi 2023, lle y cwblhawyd 10 ymgysylltiad archwilio newydd hyd at y cam allbwn drafft o leiaf a gorffennwyd 22 ymgysylltiad archwilio o'r flwyddyn flaenorol. Dangosir crynodeb o'r allbynnau a'r farn archwilio yn y flwyddyn dan sylw isod.

Ffigur 1. Allbynnau a barn archwilio (ar 31 Medi 2023)

Statws	Nifer yr archwiliadau a gwblhawyd	Barn				
		Effeithiol	Effeithiol gyda lle i wella	Annigonol ac angen gwelliant mawr	Anfodddhaol	Ni roddwyd barn
Drafft	8	4	4	0	0	0
Terfynol	34	7	18	3	1	5
CYFANSWM	42	11	22	3	1	5
	20	Ymgysylltiadau Archwilio Newydd a gwblhawyd				
	22	Ymgysylltiadau Archwilio a orffennwyd o 2022/23				

Ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae'n braf adrodd bod yr holl allbynnau archwilio drafft a gyhoeddwyd wedi cael barn 'effeithiol' neu 'effeithiol gyda lle i wella'.

Ffigur 2. Allbynnau a barn archwilio 2023/24 (ar 30 Medi 2023)

Rhif	Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd	Barn Archwilio
1.	Rheoli Perfformiad - Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol	Effeithiol
2.	Rheoli Perfformiad - Gwasanaethau Plant	
3.	Rheoli Perfformiad - Oedolion, Tai a Chymunedau	
4.	Rheoli Perfformiad - Pobl a Chymunedau	
5.	Rheoli Perfformiad - Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd	
6.	Trethiant	
7.	Rheoli Perfformiad - Adnoddau	
8.	Gwasanaethau Etholiadol	
9.	Llywodraethu Gwybodaeth	
10.	Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid	Effeithiol gyda lle i wella
11.	Rheoli Perfformiad – Addysg a Dysgu Gydol Oes	
12.	Gwastraff Masnach	
13.	Rhenti Tai	

Rhif	Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd	Barn Archwilio
14.	Rheoli Plâu	
15.	Cynllunio	
Gwaith Archwilio gyda 'Dim Barn'		
16.	Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd	Ymgynghoriaeth, ardystiad, cyngor ac arweiniad
17.	Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd	
18.	Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg	
19.	Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 2021/22	
20.	Grant Gwella Addysg 2022/23	
Archwiliadau wedi'u Cwblhau o'r Flwyddyn Flaenorol		
21.	Rheoli Asedau Ysgol - Thematig (Albany)	Effeithiol
22.	Grantiau Covid Llywodraeth Cymru - Sicrwydd	
23.	Rheoli Perfformiad – Datblygu Economaidd	
24.	Adnoddau - Iechyd a Diogelwch (dygwyd ymlaen 2022/23)	Effeithiol gyda lle i wella
25.	Awdurdod yr Harbwr	
26.	Cartref Cŵn Caerdydd	
27.	Iechyd a Diogelwch - Addysg	
28.	Bargen Ddinesig 2021/22	
29.	Dilyniant - Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	
30.	Gorfodi Rheoli Gwastraff	
31.	Llogi Sgipiau	
32.	Ysgol Uwchradd y Dwyrain	
33.	Moeseg a Gwerthoedd	
34.	Pensiynau a Buddsoddiadau	
35.	Rheoli Asedau	
36.	Gwaredu Tir ac Adeiladau	
37.	Cwynion a chanmoliaethau	
38.	Cyflogres ac AD – Profi yn Ystod y Flwyddyn 2022/23	
39.	Amrywiadau Contract	Annigonol ac angen gwelliant mawr
40.	Cydymffurfiaeth SDD DCT y Gyfarwyddiaeth	
41.	Rheoli Asedau Ysgolion - Ysgol Gynradd Sant Padrig	
42.	Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog	Anfodddhaol

Yn ogystal â'r tabl uchod, mae'r allbynnau na roddwyd barn sicrwydd arnynt a'r rhesymau dros hynny fel a ganlyn:

Ffigur 3. Archwiliadau a gwblhawyd heb farn sicrwydd (ar 30 Medi 2023)

Archwiliad	Sylwadau
Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd	Gwaith i gefnogi cwblhau'r Datganiad Cyfrifon, 2022/23
Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd	
Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg	
Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 2021/22	Cymeradwyo gwariant, cyfrifon a defnydd grant cymwys
Grant Gwella Addysg 2022/23	

Dangosir statws yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn **Atodiad A**.

2.2 Adnoddau

Ar ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael gwybod ym mis Gorffennaf fod dwy swydd Uwch Archwilydd wag wedi eu llenwi, dechreuodd deiliaid y swyddi yn ystod mis Gorffennaf. Ym mis Gorffennaf, cafodd y Pwyllgor hefyd wybod bod dwy swydd Archwilydd wedi dod ar gael, yn sgil dyrchafu un aelod o'r tîm yn Uwch Archwilydd, ac un arall yn gadael y tîm am gyfle yn y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau. Roedd un o'r swyddi a oedd ar gael yn destun treial adleoli posibl yn unol â phrosesau AD, ond ar ôl cyfnod byr yn ystod y treial penderfynodd y swyddog geisio cyfle arall yn y Cyngor.

Cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer y ddwy swydd wag yn ystod mis Gorffennaf a braf yw adrodd bod y ddwy wedi'u llenwi, gyda deiliaid newydd y swyddi'n dechrau ym mis Hydref. Penodwyd un deiliad yn llawn amser o Rhentu Doeth Cymru, a llenwyd y swydd arall ar sail rhannu swydd - un ymgeisydd allanol sydd wedi gweithio yn y Tîm Archwilio Mewnol o'r blaen, a swyddog o Archifau Morgannwg. Bydd y swyddog o Archifau Morgannwg yn gweithio yn y ddwy rôl ar 0.5 CALL (cyfwerth ag amser llawn), gyda mesurau lliniaru ar waith i osgoi unrhyw wrthdaro rôl posibl.

Yn dilyn y diweddariad i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf, lle'r oedd tri deiliad Hyfforddeiaeth CIPFA i fod i ddechrau ddiwedd mis Gorffennaf, mae'r tri wedi dechrau eu hastudiaethau a'u lleoliadau erbyn hyn, fel y cynlluniwyd, gydag un wedi'i leoli yn Archwilio Mewnol. Mae Hyfforddeion CIPFA yn cael eu lleoli ar draws yr Adran Gyllid ar sail cylchdro, a bydd adnoddau Archwilio Mewnol ar gael ar gyfer hyn yn ystod y 3 blynedd o astudio ar gyfer y garfan hon.

Ers penodi i'r holl swyddi gwag, rhoddwyd blaenoriaeth i ddatblygu staff newydd er eu budd nhw ac er budd y gwasanaeth archwilio yn gyffredinol yn y tymor hwy. Roedd hyn gan gymryd

y byddai darparu hyfforddiant a chymorth manwl yn effeithio ar gapasiti'r tîm ehangach gan fod staff archwilio ar draws y tîm wedi cymryd rhan.

Gan fod pob archwilydd gweithredol a'r cynorthwy-ydd archwilio yn cofnodi'r holl amser gwirioneddol a weithiwyd, mae gwybodaeth rheoli ddefnyddiol ar gael at ddibenion cynllunio, monitro ac adrodd. Roedd data taflenni amser yn cynnwys 478 diwrnod taladwy yn y flwyddyn hyd yma, yn erbyn cynllun pro-rata o 748 diwrnod (cyfrifir y diwrnodau pro-rata fel cyfartaledd chwarterol hafal o ddiwrnodau sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn gyfan ac felly effeithir arnynt gan swyddi gwag a gedwir tan ar ôl apwyntiadau staff).

Mae amser ar gael at ddibenion datblygu archwilio, ac mae gan un Archwilydd gyllid wedi'i neilltuo er mwyn astudio'r Cymhwyster Archwilydd Systemau Gwybodaeth Ardystiedig (CISA) gydag ISACA. Er mwyn cefnogi eu datblygiad a chyflawni'r Cynllun Archwilio, trefnwyd iddynt gysgodi a chyflwyno'r ddau archwiliad TGCh yn y cynllun ochr yn ochr ag archwilydd arbenigol sydd wedi'i gomisiynu o dan gontract dan gyfarwyddyd y Rheolwr Archwilio.

2.3 Cynllun blynyddol

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio 2023/24 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023, sydd i'w weld yn Atodiad B. Er y caiff ei bennu'n flynyddol, mae'r Cynllun Archwilio'n addasadwy ac yn ymatebol a bydd yn destun asesiadau risg parhaus, blaenoriaethu ac adolygiadau gydol y flwyddyn er mwyn gwneud y mwyaf o sicrwydd a chymorth rheolwyr. Mae'n bosibl y caiff newidiadau yn ystod y flwyddyn eu cyflwyno lle y bo'n briodol, er mwyn ymateb i risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Yn dilyn sgysiau gydag uwch reolwyr, cynigir ychwanegu ymgysylltiad archwilio sicrwydd i'r Cynllun Archwilio presennol ar 'atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau'. Cwmpas yr archwiliad, fel y'i crynhoir yn Atodiad B – Cynllun Archwilio, yw rhoi sicrwydd ar asedau a rheolaeth ariannol yn ystâd annomestig y cyngor ac ysgolion. Bydd yr amcanion manwl yn cael eu datblygu drwy brosesau cynllunio archwilio ac asesu risg. Yr amser disgwylidig sydd ei angen i gwblhau'r archwiliad hwn yw 15 diwrnod ac, yn unol â hynny, gofynnir am gytundeb gan y Pwyllgor i ychwanegu'r archwiliad hwn i'r Cynllun Archwilio presennol.

Bydd y Pwyllgor yn nodi bod y Cynllun Archwilio yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymgynghoriaeth archwilio, ac mae peth o'r amser hwn wedi'i ddyrannu i roi cyngor ac arweiniad ar 'weithredu meddalwedd pont bwyso newydd (a rheolaethau cysylltiedig)'. Mae hyn

ymhellach i argymhelliad agored yn ymwneud â datblygu neu ddisodli'r Gatehouse System, a ddefnyddir i gofnodi gweithgarwch pont bwysu yn Safleoedd Amwynder Dinesig y Cyngor, i fynd i'r afael â chyfyngiadau archwilio ac adrodd.

Er gwybodaeth i'r Pwyllgor, amlygir yr holl archwiliadau a oedd â statws drafft ar ddiwedd 2022/23 yn 'llwyd' er mwyn gallu olrhain cwblhau yr archwiliadau hyn, tra'n darparu gwahaniad gweladwy o'r ymgysylltiadau archwilio a geir yng Nghynllun Archwilio 2023/24.

Mae cyflawni Cynllun Archwilio 2023/24 yn gymesur is na'r targed pro-rata ar ddiwedd chwarter dau. Mae'r rhesymau am hyn yn ymwneud yn bennaf â swyddi gwag yn cael eu cadw yn ystod chwarter un, ac yna apwyntiadau'n cael eu gwneud yn ystod chwarter dau y blaenoriaethwyd hyfforddiant a datblygiad ar eu cyfer fel yr amlinellir yn adran 2.2. 'Adnoddau'.

Y nod yw gwella ychydig ar y gyfran o'r Cynllun Archwilio a gyflawnwyd yn chwarter tri, o gymharu â'r chwarteri ariannol blaenorol, yn dilyn penodi tri Archwilydd newydd ym mis Hydref (2 CALI) wrth i'r tîm ehangach gefnogi eu hyfforddiant a'u datblygiad. Yna rhoddir sylw i gynyddu cyflawniad y cynllun archwilio yn chwarter pedwar.

Caiff archwiliadau bob amser eu dyrannu ar sail sicrhau'r lefel uchaf posibl o sicrwydd ac y bydd cwmplas yn cael ei ledaenu'n ddigonol er mwyn lliniaru unrhyw risg i ddarparu barn archwilio lawn ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dangosir mesurau perfformiad yn adran 3.2 'perfformiad'.

2.4 Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg (*Ch2 2023/24*)

Yn ystod chwarter dau, mae'n gadarnhaol adrodd bod y farn archwilio a roddwyd naill ai'n 'effeithiol' neu'n 'effeithiol gyda lle i wella'. Gan nad oedd unrhyw farn sicrwydd ddiffygiol dros y cyfnod adrodd, mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu'r canfyddiadau o'r archwiliadau a gategoreiddiwyd fel archwiliadau system uchel / sylfaenol yn y Cynllun Archwilio, yr adroddwyd arnynt yn ystod y cyfnod drafft yn ystod y chwarter.

Gwnaeth archwiliad o Renti Tai roi sgôr sicrwydd o 'effeithiol gyda lle i wella'. Roedd yr amcanion archwilio yn cynnwys sicrwydd ar systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol mewn perthynas â gosod, casglu ac adfer rhenti, a'r gwaith cysylltiedig o gofnodi a rheoli rhenti tai. Ystyriwyd bod prosesau craidd ar gyfer rheoli cyfrifon rhent tai yn effeithiol, gyda thimau ar wahân ar waith i sefydlu cyfrifon rhent tai, monitro cyfrifon, a gorfodi dyledion gyda chaniatâd TGCh priodol ar

waith. Roedd rhenti wedi'u gosod yn unol â chanllawiau Llywodraethu Cymru a'r awdurdod dirprwyedig, gyda dileu'n digwydd lle bo angen, yn unol â dirprwyaethau'r Cyngor.

Mae'r rheolwyr wedi cytuno ar yr argymhellion archwilio ar gyfer gwella, sy'n ymwneud ag ôl-ddyledion a rheoli dyledion yn dilyn anawsterau wrth fonitro cyfrifon rhent a gwaith casglu ôl-ddyledion, yn yr hinsawdd economaidd bresennol ac yn y cyd-destun o fylchau adnoddau staff yn deillio o swyddi gwag a salwch. Mae'r rheolwyr wedi ymrwymo i ddatblygu dull mwy targedig, a phroses uwchgyfeirio ar gyfer rheoli ôl-ddyledion tenantiaid, i gynnwys monitro effaith lleihau dyraniadau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan Lywodraeth Cymru ar ôl-ddyledion, a ph'un ai a fydd angen prosesau rheoli pellach yn y cyd-destun hwn. Er bod data a graffiau ôl-ddyledion wedi parhau i gael eu paratoi, bydd dangosydd perfformiad ar gyfer casglu dyledion ar gyfer tenantiaid presennol yn cael ei ailsefydlu, a gafodd ei oedi yn ystod y pandemig, a chytunwyd i hyn gael ei ledaenu i gynnwys ôl-ddyledion cyn-denantiaid hefyd. Cytunwyd hefyd ar nifer fach o argymhellion gweithdrefnol ehangach.

Mae adroddiad archwilio drafft ar Drethiant wedi rhoi sgôr sicrwydd o 'effeithiol'. Roedd yr amcanion archwilio yn cynnwys sicrwydd ar y systemau i gefnogi gweinyddu ac adrodd TAW effeithiol a chydymffurfiol, a'r rheini i gynnal ymwybyddiaeth dreth effeithiol ymhlith y rhai sy'n gyfrifol am gychwyn a phrosesu trafodion.

Ystyriwyd bod systemau llywodraethu yn effeithiol, i alluogi'r Cyngor i ddwyn ei rwymedigaethau TAW i gyfrif ac adennill treth fel y bo'n briodol. Roedd polisïau a gweithdrefnau yn cyd-fynd â deddfwriaeth berthnasol ac roedd nodiadau cyfarwyddyd wedi cael eu hadolygu yn fanwl gan Ymgynghorwyr Treth y Cyngor. Roedd cyfarwyddiadau gwaith manwl ar waith ar gyfer proses ffurflenni TAW gynhwysfawr fel y trafodwyd gyda CThEF, a oedd ymhellach i gyngor annibynnol ehangach. Ategwyd ffurflenni TAW gan bapurau gwaith manwl ac roeddent yn amodol ar wiriadau gan uwch swyddogion cyn eu cyflwyno. Roedd yna drefniadau i gofnodi gwallau a materion i'w huwchgyfeirio a dysgu a gwella sefydliadol bwriadedig, ac mae arbenigwr trethi allanol wedi'i gyflogi i roi cyngor parhaus rheolaidd, gyda ffocws penodol yn cael ei roi ar oblygiadau TAW cynlluniau gwaith a phrosiectau a gynllunnir. Datblygwyd modiwlau hyfforddi ac roeddent yn orfodol i staff perthnasol, ac roedd y cyfraddau cwblhau yn uchel, ar 95% ym modiwl 1 a 99% ym modiwl 2.

Gwnaeth archwiliad o Lywodraethu Gwybodaeth roi sgôr sicrwydd o 'effeithiol'. Roedd amcanion yr archwiliad yn cynnwys sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd polisïau a strategaethau

ar gyfer rheoli gwybodaeth ar draws y Cyngor, a'r systemau ar gyfer rheoli cofnodion, ymateb i geisiadau gwybodaeth, rheoli asedau gwybodaeth a chofnodi trefniadau gweithgarwch prosesu. Rhoddwyd sicrwydd cyffredinol mewn perthynas ag amcanion yr archwiliad, gan fod yna fframwaith o bolisiâu clir sy'n cynnwys sylw da i'r meysydd a ddisgwyllir o fewn cyfundrefn llywodraethu gwybodaeth. Bydd Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth newydd yn cael ei lansio i gofnodi cydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth mewnol ac allanol. Mae rheolaethau cadarn ar gyfer prosesu ac ymateb i geisiadau am wybodaeth yn y Gwasanaeth Ceisiadau Gwybodaeth canolog. Nodwyd hefyd fod gan y Swyddog Diogelu Data ddealltwriaeth dda o'r newidiadau a gynigir yn y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, y mae'r Cyngor yn barod ar ei gyfer, ac mae'n cadw golwg ar gynnydd y Bil drwy gamau deddfwriaethol.

Ystyrir bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth o fewn y Cyngor yn aeddfed. Mae'r cwmpas mwyaf ar gyfer gwella mewn perthynas â digideiddio, ar adeg lle mae'r Cyngor wedi derbyn adroddiad yn ddiweddar a gomisiynwyd ganddo ar opsiynau ar gyfer Digidol Cofnodion Archif, a chynigir y gallai'r rheolwyr ystyried hyn ochr yn ochr ag opsiynau ehangach i gefnogi bwriadau strategol Strategaeth Ddigidol y Cyngor i fod yn ddigidol yn ddiodyfyn. Adroddwyd am rai anghysondebau a bylchau yn y Cofnod Gweithgarwch Prosesu i'r Swyddog Diogelu Data ar ddiwedd yr archwiliad, yr effeithiwyd arnynt gan nam a oedd eisoes wedi'i adrodd i'r darparwr meddalwedd i'w ddatrys. Mae rheolwyr wedi cytuno i adolygu'r cofnod gyda Hyrwyddwyr Llywodraethu Gwybodaeth unwaith y bydd y broblem meddalwedd wedi'i datrys.

Mae'r adolygiad archwilio thematig terfynol o Reoli Perfformiad y Gyfarwyddiaeth wedi dod i ben. Dilynodd hyn:

1. Adolygiadau Cynllunio Adfer y Gyfarwyddiaeth, a oedd yn ystyried sut roedd y sefydliad wedi addasu i, a dod drwy'r pandemig. Arweiniodd y gwaith hwn, a gyflwynwyd drwy hunanasesiad cyfarwyddiaeth ac a gydlynwyd gan Archwilio Mewnol, at rai argymhellion o ran mesurau perfformiad a oedd yn bwydo i mewn i Gynlluniau Cyflawni perthnasol y Gyfarwyddiaeth.
2. Archwiliad lefel gorfforaethol o Reoli Perfformiad, a roddodd sicrwydd ar y fframwaith corfforaethol ar gyfer rheoli perfformiad a ystyriwyd yn gadarn.

Gwnaeth archwiliad Rheoli Perfformiad ar lefel cyfarwyddiaeth, a oedd yn ymwneud â'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau, roi sicrwydd bod trefniadau a systemau perfformiad cadarn ar waith

gyda'r gyfarwyddiaeth yn cymhwyso'r fframwaith corfforaethol yn effeithiol, ac ni chodwyd unrhyw argymhellion yn ei gylch.

Mae adolygiad archwilio wedi'i gwblhau o bariadau'r Fenter Twyll Cenedlaethol a oedd yn cymharu staff cyfredol ar y gyflogres â data credydwy. Pwrpas yr adolygiad hwn oedd rhoi sicrwydd ar achosion lle talwyd arian Cyngor i gyfrifon a oedd yn gysylltiedig â swyddogion y Cyngor. Ni chafodd unrhyw dwyll neu gamgymeriadau eu nodi. Pan nad oedd gweithwyr wedi datgan buddiant neu gyflogaeth eilaidd, yn dilyn trafodaethau gyda rheolwyr perthnasol, rhoddwyd cyngor i fynd i'r afael â hyn. Nid oes unrhyw farn archwilio yn cael ei darparu ar waith paru data o'r math hwn, ond ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol, a chynhyrchwyd mwyafrif y pariadau drwy baru data credydwyr anfasnachol.

2.5 Canfyddiadau Gwerth am Arian (*Ch2 2023/24*)

Mae gan fwyafrif llethol yr archwiliadau a gynhaliwyd gan y Tîm Archwilio Mewnol amcanion sy'n cwmpasu sicrwydd gwerth am arian, sy'n cynnig lefel foddhaol gyffredinol o sicrwydd ar gyfer y cyfnod adrodd.

Cyhoeddwyd adroddiad drafft yn ystod y chwarter ariannol ar werth am arian wrth ddefnyddio cerbydau'r Cyngor. Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r prosesau sydd ar waith ar gyfer caffael, dyrannu, goruchwyllo, monitro a rheoli cerbydau. Mae'r adroddiad wedi rhoi barn archwilio ddrafft o 'effeithiol, gyda lle i wella' ac wedi codi nifer fach o argymhellion.

Roedd rheolaethau cyffredinol ar waith yn y meysydd a oedd yn destun adolygiad, ond mae cyfleoedd i wella o ran hygyrchedd a defnydd o'r wybodaeth reoli sydd ar gael i gael mwy o sicrwydd ar sail cyngor cyfan, fel y crynhoir isod.

- Ystyriwyd bod angen arweiniad i gefnogi rheolwyr y Gyfarwyddiaeth i gyrchu'r wybodaeth systemau sydd ar gael yn effeithiol i reoli a monitro eu fflyd o gerbydau gan ddefnyddio'r system Quartix. Dylai'r canllaw hwn hwyluso sicrwydd rheoli ar ddefnyddio cerbydau, dull gyrru a defnydd y tu allan i oriau. Unwaith y bydd ar gael, bydd hyn yn cael ei argymhell ar gyfer monitro rheoli arferol.
- Nodwyd nad oedd nifer o dracwyr cerbydau wedi'u cofnodi ar Quartix (y system tracio cerbydau) ac mae yna argymhelliad i sicrhau bod data Quartix yn gyflawn cyn belled ag y bo modd ar gyfer y fflyd gyfredol.
- Argymhellir defnyddio Porthol Cwsmeriaid Tranman (meddalwedd rheoli fflyd) i ddarparu rhagor o fanylion i Gyfarwyddiaethau mewn perthynas â chostau cerbydau a

swyddi, i alluogi monitro mwy effeithiol, wedi'i ategu gan ddadansoddiad pellach o'r taliadau ar y daenlen ailgodi ar gyfer cyfarwyddiaethau o ran eu cerbydau.

Ymhellach i'r uchod, er y pennwyd bod egwyddorion caffael sylfaenol yn cael eu cymhwyso, lle byddai'r mwyafrif o gerbydau yn cael eu caffael drwy drefniant prydlesu gydag unrhyw benderfyniadau i'w prynu wedi'u cefnogi gan broses o arfarniadau opsiynau i arddangos dull gweithredu gwerth gorau, nid oedd strategaeth gaffael ffurfiol ar waith. Cynigir bod strategaeth gorfforaethol yn cael ei datblygu at y diben hwn.

3. Perfformiad Archwilio a Gwerth Ychwanegol

3.1 Gwerth Ychwanegol

Mae cyfarfodydd Rheolwr Cydberthnasau wedi parhau i gael eu cynnal bob chwarter gyda Chyfarwyddwyr a'u cynrychiolwyr yn ystod 2023/24. Canolbwyntiwyd yn benodol ar ddeall y blaenoriaethau a'r risgiau o fewn pob tîm rheoli, a'r newidiadau i systemau neu brosesau a gynlluniwyd neu sydd ar y gweill, er mwyn cyfarwyddo cyngor archwilio a llywio'r gwaith o gynllunio digwyddiadau archwilio.

Mae adborth gan gleientiaid archwilio wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan gyda boddhad o 90% a chyda 90% o gleientiaid yn sgorio pob maes o'u harchwiliad fel da neu ardderchog. Darparwyd manylion ym Mhwyllgor Gorffennaf am y rhesymau pam na chafodd un archwiliad adborth boddhaol gan gleient yr archwiliad. Dwedodd pob cleient arall fod eu harchwiliadau yn ychwanegu gwerth.

Yn yr allbynnau archwilio a gyhoeddwyd hyd yma (fel ar 30 Medi 2023), gwnaed 57 o argymhellion, y cytunwyd ar 24 ohonynt drwy adroddiad terfynol. Mae'r holl argymhellion eraill yn cael eu hystyried gan gleientiaid archwilio trwy allbynnau archwilio drafft. Mae'r rhain wedi eu crynhoi isod:

Ffigur 4. Argymhellion a godwyd ac a gytunwyd

Sgôr	Argymhellion a wnaed	Argymhellion a gytunwyd	Argymhellion sy'n cael eu hystyried
Coch	0	0	0
Coch / oren	16	6	10
Oren / gwyrdd	38	18	20
Gwyrdd	3	0	3
CYFANSWM	57	24	33

3.2 Perfformiad

Fel yr amlinellir yn adran 2.1 ('Gweithgareddau Presennol'), blaenoriaethau a dull gweithredu'r tîm archwilio yn ystod y flwyddyn hyd yma oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a dechrau cyflawni ymrwymadau sicrwydd o Gynllun Archwilio 2023/24.

Amlinellir y prif resymau pam mae'r gwasanaeth archwilio yn gweithredu ar gapasiti is yn ystod y chwarter yn 2.2 ('Adnoddau'). Ar ddechrau'r flwyddyn, pennwyd targed arfaethedig ar gyfer cyflawni'r Cynllun Archwilio ar 70% a'i integreiddio i'r prosesau cynllunio archwilio a rheoli perfformiad. Ystyrir bod y targed yn heriol a chyraeddadwy, ac mae'r prif resymau dros lithriant ar sail swyddi gwag ar ddechrau'r flwyddyn, ac yna'r blaenoriaethu a roddir i ddatblygu staff newydd yn dilyn eu penodi, er eu budd nhw ac er budd tymor hwy y gwasanaeth archwilio yn gyffredinol. Roedd hyn gan gymryd y byddai darparu hyfforddiant a chymorth manwl yn effeithio ar gapasiti'r tîm.

Mae nifer o archwiliadau wedi'u cwblhau o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, fel y dangosir yn ffigur 2, ac mae hyn wedi cyfrannu at nifer gadarnhaol o archwiliadau a orffennwyd fesul archwilydd. Mae sylw yn parhau i gael ei roi i orffen adroddiadau archwilio drafft mewn modd amserol.

Cyhoeddwyd pob adroddiad drafft o fewn pedair wythnos i gwblhau gwaith maes archwilio yn y flwyddyn hyd yma, a rhoddir sylw i gynnal perfformiad uchel yn y maes hwn.

Mae Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cymryd diddordeb penodol mewn perfformiad yn erbyn canran yr argymhellion archwilio a weithredwyd o fewn yr amserlen y cytunwyd arni, sydd wedi bod yn is na'r targed ers nifer o flynyddoedd. Mae'r targed o 80% ar gyfer 2023/24 yn cynrychioli disgwyliad parhaus o gyflawniad uchel ar y camau rheoli y cytunwyd arnynt, a gwelliant disgwylidig i berfformiad cyfarwyddiaethau ers 2022/23. Mae perfformiad wedi dirywio yn erbyn y mesur hwn yn chwarter dau, ac mae pwysigrwydd cyflawni yn erbyn y targed hwn yn parhau i gael ei bwysleisio gyda'r Uwch Dîm Rheoli.

Ffigur 5. Perfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer 2023/24 (hyd yma)

Dangosydd Perfformiad	Canlyniad 2022/23	Targed 2023/24	Canlyniad Ch1	Canlyniad Ch2
Canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd	52%	70%	12%	24%
Nifer gyfartalog y diwrnodau archwilio cynhyrchiol fesul CALL	144	150	28.48	54.21
Nifer gyfartalog yr archwiliadau wedi'u cwblhau fesul CALL	6.64	8	3.07	4.35
Canran yr allbynnau archwilio drafft a gyflawnwyd o fewn pedair wythnos	91%	90%	100%	100%
Canran yr argymhellion archwilio a roddwyd ar waith o fewn yr amserlen y cytunwyd arni	67%	80%	80%	71%

3.3 Meincnodi

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn ymarferion meincnodi archwilio gydag Awdurdodau Lleol Cymru a Dinasoedd Craidd y DU. Mae ymarfer meincnodi wedi'i gwblhau gyda grŵp Awdurdodau Lleol Cymru mewn perthynas â 2022/23, ond nid gyda Dinasoedd Craidd y DU ar hyn o bryd.

Darperir dadansoddiad a gwybodaeth isod i'r Pwyllgor eu hystyried mewn perthynas â gwaith meincnodi a gwblhawyd ar Awdurdodau Lleol Cymru. Gwnaeth hanner y 22 awdurdod lleol yng Nghymru gymryd rhan, er bod llai o'r awdurdodau lleol mwy o faint, sy'n debycach i Gaerdydd, wedi ymateb. Darperir manylion yn y tabl canlynol, a nodir:

- Bod 36% o awdurdodau lleol yn dweud bod ganddynt adnodd gwrth-dwyll pwrpasol. Mae Tîm Ymchwilio Corfforaethol bach ymroddedig yng Nghaerdydd.
- Er y bydd yr holl waith archwilio o raddfa a chwmpas gwahanol, cwblhaodd Caerdydd nifer ychydig yn is o ymgysylltiadau archwilio ac adroddiadau sicrwydd na chyfartaledd yr ymatebwyr. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod nifer o swyddi gwag wedi'u cadw yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf sy'n golygu bod cyfran y gwaith a gwblhawyd yn is na'r disgwyl.
- Roedd gan Gaerdydd gost gyfartalog uwch am bob diwrnod taladwy na'r cyfartaledd. Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar daladwyedd sy'n cyfrannu at y gost fesul diwrnod taladwy. Yng Nghaerdydd, mae amser annhaladwy yn cynnwys hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, dyletswyddau rheoli, Undebau Llafur, a chyfrifoldebau Rhwydwaith

Gweithwyr. Mae aelod clercaidd o'r Tîm hefyd yn darparu cymorth gwerthfawr, y mae llawer ohono'n ddi-dâl, oherwydd natur y gwaith hwn.

- Er bod adborth cleientiaid a gafwyd dros y cyfnod yn gadarnhaol, nodir bod Caerdydd wedi derbyn nifer gymesur is o ymatebion na chyfartaledd y grŵp. Mae'r Rheolwr Archwilio yn gwneud ymholiadau gyda chyfoedion ar y gwahanol ddulliau y gellid eu defnyddio i wella cyfran yr ymatebion adborth a dderbyniwyd.

Ffigur 6. Meincnodi Awdurdodau Lleol Cymru 2022/23

Mesurau	Caerdydd	Cyfartaledd Grŵp Prif Archwilwyr Cymru
ATAL TWYLL		
Tîm / swyddog / adnodd gwrth-dwyll pwrpasol	Oes	Atebodd 36% 'oes'
CYNLLUN ARCHWILIO		
Nifer yr adroddiadau sicrwydd (h.y. heb gynnwys gwaith cynghori a grant)	46	52
Nifer yr ymgysylltiadau archwilio yn gyffredinol	55	58
CYNHYRCHIANT		
Canran yr amser taladwy (i'r hyn a gynlluniwyd)	87%	90%
COSTAU		
Costau staff fesul diwrnod uniongyrchol-daladwy	£402	£299
CWSMERIAID		
Canran yr arolygon cleientiaid a ddychwelwyd	50%	77%
Canran yr arolygon cleientiaid a ddychwelwyd â gradd "boddhaol" neu well	100%	100%

3.4 Gweithredu'r Cynllun Archwilio

Yn ogystal â monitro a rheoli nifer yr archwiliadau a gynhelir, caiff archwiliadau eu dyrannu er mwyn sicrhau bod sicrwydd eang erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a bod hwnnw'n sail ar gyfer barn flynyddol y Rheolwr Archwilio.

Fel yr amlinellwyd yn adran 2.1 – Gweithgareddau Cyfredol, cwblhawyd ugain o ymgysylltiadau archwilio fel ar ddiwedd chwarter dau 2023/24. Dangosir sefyllfa bresennol Cynllun Archwilio llawn 2023/24 yn **Atodiad B** – Cynllun Archwilio.

3.5 Argymhellion

Darperir crynodeb o'r argymhellion archwilio a'r cynnydd ar y dyddiad adrodd o fewn **Atodiad C**. Mae tracwyr argymhellion llawn ar yr argymhellion sydd ar agor, a'r rhai a gwblhawyd ers y pwyllgor diwethaf, ar gael i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy wefan SharePoint er gwybodaeth ac i gyfeirio atynt.

Ffigur 7. Dyddiadau diwygiedig ar gyfer rhoi argymhellion ar waith a'r statws

Cyfarwyddiaeth / Categori Archwilio	Nifer yr argymhellion gyda dyddiadau diwygiedig	Camau gweithredu bellach wedi'u rhoi ar waith	Camau gweithredu ar agor o hyd
Sylfaenol	18	17	1
